

Rhaglenni Gwledig

Cefnogi'r broses o drosglwyddo i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Sero Net



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Trosolwg

Bydd cymorth ariannol i ffermwyr, rheolwyr tir a sectorau gwledig cysylltiedig dros y 3 blynedd nesaf yn cael ei ddarparu drwy fframwaith hyblyg o gymorth, gyda chynlluniau'n cael eu cyflwyno i gyd-fynd â'r themâu canlynol:

- Rheoli tir ar raddfa fferm
- Gwelliannau amgylcheddol ar ffermydd
- Effeithlonrwydd ac arallgyfeirio ar ffermydd
- Rheoli tir ar raddfa tirwedd
- Coetiroedd a choedwigaeth
- Cadwyni cyflenwi bwyd a ffermio

Mae'r fframwaith wedi'i gynllunio i gefnogi camau gweithredu sy'n ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd sydd ar gael dros y 3 blynedd nesaf, ac i lywio datblygiad parhaus y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a fydd yn gwobrwyo ffermwyr am y gwaith y maent yn ei wneud yn awr i leihau eu hól troed carbon, gwella'r amgylchedd a chynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy.

Bydd cyfnodau ymgeisio ar gyfer y cynlluniau cymorth amaethyddol canlynol yn cael eu cynnig yn 2022:

Cynllun	Cyfnod ymgeisio	Amlinelliad
Datblygu Garddwriaeth	Cyfnod ar gau	Cymorth grant cyfalaf i dyfwyr garddwriaeth masnachol presennol fuddsoddi mewn technoleg a chyfarpar newydd.
Grantiau Bach – Effeithlonrwydd	18 Mai i 29 Mehefin	Buddsoddi mewn cyfarpar a thechnoleg i wella perfformiad technegol, ariannol ac amgylcheddol busnesau fferm.
Grantiau Bach – Amgylchedd	23 Mai i 1 Gorffennaf	Grant i gefnogi amrywiaeth o fuddsoddiadau cyfalaf ar ffermydd, gan arwain at welliannau

		amgylcheddol sy'n gwella ansawdd ein hadnoddau naturiol.
Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth	25 Mai i 29 Mehefin	Cefnogi newydd-ddyfodiaid i sector garddwriaeth Cymru.
Tyfu er mwyn yr Amgylchedd	20 Mehefin i 29 Gorffennaf (cnydau sy'n cael eu hau yn yr hydref)	Annog tyfu cnydau a thiroedd pori sy'n sicrhau manteision o ran yr amgylchedd, bioamrywiaeth a chynhyrchu, fel cnydau protein, gwyndynnydd cymysg a chnydau gorchudd.
Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau	27 Mehefin i 5 Awst	Yn cefnogi ffermwyr yng Nghymru i wella trefniadau rheoli maethynnau ar ffermydd yn well drwy fuddsoddi mewn seilwaith presennol ar ffermydd.
Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau	4 Gorffennaf i 12 Awst	Yn cefnogi ffermwyr yng Nghymru i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol eu busnesau fferm drwy fuddsoddi mewn seilwaith.
Troi'n Organig	18 Gorffennaf i 26 Awst	Cymorth i ffermwyr droi at systemau cynhyrchu organig yn ystod y cyfnod trosglwyddo o ddwy flynedd.
Arallgyfeirio Amaethyddol	I'w gyhoeddi cyn bo hir	Cymorth i annog datblygiad arallgyfeirio mewn mentrau cynhyrchu amaethyddol.

Mae rhagor o wybodaeth am y themâu a'r cynlluniau sy'n cael eu datblygu ar gael yn:

<https://businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/cy>